

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r: Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod: 24 Ionawr 2024

Teitl: Adroddiad Camau Rheoli Archwilio Mewnol 1/4/23 – 30/9/23

Pwrpas yr adroddiad: Darparu diweddariad i'r Aelodau ynglŷn â'r gwaith a wnaed gan yr adain archwilio mewnol wrth monitro a diweddarau camau rheoli yn ystod y cyfnod uchod

Fel y nodwyd yn Fframwaith Arferion Proffesiynol Rhyngwladol Rhyngwladol Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol, mae Safon Perfformiad 2500 yn nodi bod yn rhaid i Archwilio Mewnol sefydlu proses i fonitro a mynd ar drywydd camau rheoli.

Y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol sy'n gyfrifol am fonitro cynnydd a wneir yn erbyn y camau gweithredu hyn ac adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Mae'r adroddiad hwn yn diweddarau'r pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o'r cynnydd a wneir yn gan rheolwyr ar camau rheoli a gyhoeddwyd yng nghynllun gweithredu adroddiadau Archwilio Mewnol.

Argymhelliad: Ystyried y gwaith a wnaed a'r sefyllfa bresennol o ran yr Adain Archwilio Mewnol.

Rheswm dros y penderfyniad: Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn fodlon bod yr Adain Archwilio Mewnol yn monitro cynnydd a wneir yn erbyn y camau gweithredu hyn ac adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i ddarparu sicrwydd realistig ar ddiwedd y flwyddyn gan ychwanegu gwerth a chynorthwyo'r Cyngor wrth gyflawni ei amcanion.

Atodiadau: Adroddiad Gweithrediadau Rheolwyr Archwilio Mewnol 1/4/23 – 30/9/23

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu / Swyddog Monitro

Swyddog Adrodd: Alex Jenkins
Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol

Dyddiad: 8 Tachwedd 2023

**Gwasanaethau Cyfreithiol a
Llywodraethu**

Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Camau Rheoli

Dyddiad Cyhoeddi: 8fed Tachwedd 2023


**Adroddiad a grëwyd gan:
Alex Jenkins, RhCAM**



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Cyflwyniad


1. Fel y nodwyd yn Fframwaith Arferion Proffesiynol Rhyngwladol Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol, mae Safon Perfformiad 2500 yn nodi bod yn rhaid i Archwilio Mewnol sefydlu proses i fonitro a mynd ar drywydd camau rheoli.
2. Cyfrifoldeb y rheolwyr yw gweithredu camau rheoli. Y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol sy'n gyfrifol am fonitro'r cynnydd a wneir yn erbyn y camau gweithredu hyn ac adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
3. Mae ffurflenni Rhoi Diweddariad ar Gamau Rheoli wedi'u datblygu i'w dosbarthu i swyddogion cyfrifol y cytunwyd arnynt er mwyn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol.
4. Mae proses Archwilio Mewnol ar gyfer mynd ar drywydd camau rheoli fel a ganlyn:



5. Bydd cynnydd pob cam sylfaenol ac angenrheidiol yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn rhan o'r adroddiad hwn bob chwe mis.
6. Mae Archwilio Mewnol yn cadw taenlen er mwyn rhoi cipolwg amser real o'r perfformiad presennol. Mae hyn yn golygu y gellir adrodd ar y wybodaeth a'i holrhain yn effeithiol.
7. Oherwydd ôl-groniad o gamau rheoli o ganlyniad i bandemig Covid-19, bydd Archwilio Mewnol yn blaenoriaethu camau sylfaenol ac angenrheidiol ar gyfer adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2020/2021 neu ynghynt. Cymerir camau dilynol ar gyfer yr holl gamau rheoli o 2021/22 ymlaen.


Perfformiad presennol

- Mae'r siartiau canlynol yn dangos perfformiad Camau Rheoli ar 30/09/2023.
- Dangosir cyfanswm y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau yn ffigur 1. Mae yna cyfanswm o 87 o Gamau Rheoli agored. Ystyrir bod y Camau Gweithredu dan sylw 'yn agored' hyd nes y bydd y Rheolwr Corfforaethol Archwilio Mewnol yn cytuno â'r rheolwyr bod y camau gweithredu wedi'u rhoi ar waith yn ddigonol i leihau'r risg a nodwyd neu fod y rheolwyr yn barod i oddef lefel y risg. Ar ôl hynny, caiff y camau gweithredu eu cofnodi fel rhai sydd wedi'u 'cau'.




Ffigur 1

- Mae'r camau gweithredu sy'n agored i'w gweld yn ffigur 2a fesul blwyddyn. Mae ffigur 2b yn amlinellu'r camau gweithredu sy'n agored fesul maes gwasanaeth.




Ffigur 2a




Ffigur 2b

11. Dangosir cyfanswm y camau hwyr yn ffigur 3a. Mae cyfanswm o 26 camau rheoli hwyr. Nid yw'r camau hwyr yn cynnwys Camau Rheoli sy'n derbyn sylw (h.y. os ydynt ar y cam 'diweddariad wedi'i dderbyn', 'gwirio', neu 'wedi'i gau'). Mae'r camau gweithredu hwyr yn cynnwys y rhai lle mae'r ffurflenni rhoi diweddariad wedi'u hanfon ond nad oes ymateb wedi dod i law. Mae ffigur 3b yn amlinellu'r camau gweithredu hwyr fesul maes gwasanaeth.




Ffigur 3a



Ffigur 3b

12. Dangosir statws Camau Rheoli yn ffigur 4. Mae'r holl gamau sydd heb eu cwblhau a gafodd eu monitro yn ystod y cyfnod wedi'u cynnwys yn y siart hwn p'un a ydynt yn hwyr ai peidio. Bydd y camau sydd wedi'u cau yn cael eu tynnu oddi ar y daenlen fonitro ar gyfer adroddiadau dilynol.







Ffigur 4

13. Manylir ar gynnydd Archwilio Mewnol o ran ailedrych ar Gamau Rheoli sylfaenol a sylweddol yn Atodiad 1.

Cynnydd Camau Rheoli: hyd at 30/09/2023

Adroddiadau Camau Rheoli a gyhoeddwyd:

Prosesau ar gyfer darparu gofal diogel		Lefel sicrwydd: Cymedrol	
Cam Gweithredu	Blaenoriaeth	Canlyniad	Statws
Mae archwiliad blynyddol y gwasanaeth o ran y prosesau ar gyfer darparu gofal diogel yn parhau gan ei fod yn cael ei ystyried yn fesur rheoli defnyddiol.	 Sylweddol	Nid yw'r camau gweithredu wedi'u rhoi ar waith. Arweiniodd y mesurau a gyflwynwyd ar frys yn ystod pandemig Covid-19 at newidiadau yn y prosesau ar gyfer darparu gofal diogel. Mae'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn adolygu'r prosesau ar gyfer darparu gofal diogel gan ystyried newidiadau yn arferion gwaith staff y cartrefi gofal a staff y swyddfa.	Blaenoriaeth wedi'i diweddarau / Dyddiad targed  Sylweddol 31 Rhagfyr 2023
Mae clerod a rheolwyr y cartrefi preswyl yn parhau i wneud y gwaith cysoni misol.	 Sylweddol	Nid yw'r camau gweithredu wedi'u rhoi ar waith. Arweiniodd y mesurau a gyflwynwyd ar frys yn ystod pandemig Covid-19 at newidiadau yn y prosesau ar gyfer darparu gofal diogel. Mae'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn adolygu'r prosesau ar gyfer darparu gofal diogel gan ystyried newidiadau yn arferion gwaith staff y cartrefi gofal a staff y swyddfa.	Blaenoriaeth wedi'i diweddarau / Dyddiad targed  Sylweddol 31 Rhagfyr 2023

Camau Rheoli wedi'u Cau

Aseswyd risg y Camau Rheoli canlynol gan y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol ac maent wedi'u cau fel rhan o'r rhaglen Rhoi Diweddariad ar Gamau Rheoli (mae'r rhesymau wedi'u nodi o dan bob eitem isod):

Teithio (dyddiad yr archwiliad gwreiddiol: 2020/21)

1 Sylweddol

Nid oes cofnod o'r adroddiad archwilio, felly nid yw'n bosibl cael rhagor o wybodaeth am ganfyddiadau'r archwiliad. Caiff hawliadau teithio eu harchwilio fel rhan o'r archwiliadau mewnol eraill. Mae gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud yn y blynyddoedd diwethaf yng nghyswllt cyflwyno hawliadau teithio. Rhaid i bob hawliad teithio gael ei gyflwyno'n electronig drwy Dodl a chânt eu hanfon yn awtomatig at reolwr llinell y sawl sy'n hawlio er mwyn i'r rheolwr awdurdodi'r hawliad. Mae'r canllawiau hefyd wedi'u diweddarau ar Cerinet.

Lefel sicrwydd:
Statws

Ni wyddys
Wedi'i gau